

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Dyddiad Cyhoeddi 31 Mawrth 2017



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: GWEITHREDU A GWYBODAETH

CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH

Teitl: Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop (ECDC): AROLWG AMLDER CENEDLAETHOL YR ACHOSION O HEINTIAU SY’N GYSYLLTIEDIG Â GOFAL IECHYD (HCAIs), Y DEFNYDD O DDYFEISIAU A’R DEFNYDD O WRTHFICROBAU 2017

Dyddiad dod i ben/adolygu: 31 Mawrth 2018

I’w weithredu gan:

Cadeiryddion
Prif Weithredwyr
Ysgrifenyddion Bwrdd
Ysgrifennydd i’r Grŵp Ysgrifenyddion Bwrdd
Cyfarwyddwyr Meddygol
Cyfarwyddwyr Nyrsio
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd
Meddygon a Nyrsys Rheoli Heintiau
Prif Fferyllwyr Ysbytai
Arweinwyr Rhaglenni Heintiau sy’n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAI) ac Ymwrthedd
Gwrthficrobaidd (AMR) Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ymgynghorwyr Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy (CCDC)

Er gwybodaeth i Lywodraeth Cymru:

Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru
Arweinwyr Polisi a Phroffesiwn
Tîm Gweithredu AIGC
Tîm Cyfathrebu AIGC
Tîm Digidol AIGC

Er gwybodaeth:

Ymddiriedolaethau Ambiwllans Cymru
Partneriaeth Cydwasasnaethau GIG Cymru i’w ddosbarthu i bractisau meddygon teulu, fferyllfeydd cymunedol a phractisau deintyddol cyffredinol Galw Iechyd Cymru

Angen gweithredu erbyn:

Gweler paragraff 3

Anfonwyr: Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, yr Athro Jean White, Prif Swyddog Nyrsio/Cyfarwyddwr Nyrsio, Andrew Evans, Prif Gynghorydd Fferyllol

Enw(au) Cyswilt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:

Catherine Cody, Polisi HCAI, Catherine.cody@cymru.gsi.gov.uk Ffôn: 03000 251443

Dogfen(nau) amgaeedig: Dim

AROLWG AMLDER YR ACHOSION O HEINTIAU SY’N GYSYLLTIEDIG Â GOFAL IECHYD (HCAIs), Y DEFNYDD O DDYFEISIAU MEDDYGOL A’R DEFNYDD O WRTHFICROBAU YNG NGHYMRU 2017

1. Yn 2011, bu Canolfan Atal a Rheoli Afiechydon Ewrop (ECDC) yn arwain ac yn cydlynu arolwg ar draws Ewrop o nifer yr achosion (PPS), o heintiau sy’n gysylltiedig â gofal iechyd (HCAIs), y defnydd o ddyfeisiau meddygol a’r defnydd o wrthficrobau. Roedd GIG Cymru wedi cymryd rhan ynddo¹. Awgrymir y dylid cynnal PPS ar lefel genedlaethol bob pum mlynedd o leiaf. Cyhoeddodd ECDC eu bwriad i ailadrodd yr arolwg rhwng mis Medi 2016 a mis Tachwedd 2017. Eto, bydd yr amcanion yn canolbwyntio ar amcangyfrif y pwysau y mae HCAIs, y defnydd o ddyfeisiau meddygol a’r defnydd o wrthficrobau yn ei roi ar ysbytai gofal aciwt. Bydd y data a ddaw i’r amlwg yn rhoi gwell dealltwriaeth ar lefel leol, lefel genedlaethol ac ar lefel Ewropeaidd er mwyn hwyluso rhannu arferion da.
2. Mae’r Grŵp Llywio PPS a sefydlwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy’n cynnwys cynrychiolaeth o weithwyr iechyd proffesiynol o bob bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd, wedi cytuno i gynnal PPS Cymru yn ystod mis Mehefin 2017 a chynnwys ysbytai aciwt a chymunedol ynddo.
3. Mae ECDC yn ei gwneud yn ofynnol bod y data yn cael eu casglu o ysbytai’r sector aciwt a’r data hwn yn unig fydd yn cael eu rhoi yn y set ddata Ewropeaidd. Er hynny, bydd y trefniadau yn galluogi gwledydd i gynnal arolwg mewn ystod ehangach o ysbytai ar lefel leol a chenedlaethol. Bydd GIG Cymru hefyd yn casglu data o ysbytai cymunedol fel a wnaed o’r blaen yn arolwg 2011.
4. Cynhelir yr arolwg drwy ddefnyddio ffurflen ar y we a ddatblygwyd yn bwrpasol ar gyfer y PPS hwn gan ECDC ac ar gyfer arolygon lleol ac Ewropeaidd yn y dyfodol. Gellir gweld y ffurflen drwy fynd ar y system rheoli achosion Atal a Rheoli Heintiau (ICNet) newydd sy’n cael ei rhoi ar waith ar hyn o bryd ledled Cymru. Gellir mynd ar y system ar ddyfeisiadau symudol neu gyfrifiadur ar ddesg. Disgwylir y bydd rhywfaint o’r wybodaeth ar gyfer yr arolwg wedi cael ei llenwi’n barod gan ICNet. Awgrymir bod staff Atal a Rheoli Heintiau a fferyllwyr ward yn gweithio ochr yn ochr i gwblhau’r gwaith o gasglu’r data. Mae Cymru hefyd wedi ymrwmo i gyflwyno data dilysu i ECDC yn ystod PPS (isafswm o 250 o gleifion ledled Cymru). Cesglir y rhain gan ddim dilysu sydd i’w drefnu drwy’r grŵp llywio PPS.
5. Ar y cyd â’r grŵp llywio PPS, bydd timau Rhaglen Heintiau sy’n Gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru (WHAIP) a Rhaglen Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (ARP) Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer yr arolwg. Byddant yn defnyddio protocolau a deunyddiau a ddarparwyd gan ECDC. Bydd y rhaglen waith PPS yn cael ei harwain gan:

Dr Wendy Harrison (rhaglen HCAI) - wendy.harrison2@wales.nhs.uk

Dr Maggie Heginbothom (ARP) - Margaret.heginbothom@wales.nhs.uk

a fydd yn rhoi rhagor o wybodaeth drwy’r grŵp llywio PPS.

¹ [Adroddiad PPS Cymru 2011](#)

6. Bydd y PPS hefyd yn cynorthwyo ysbytai i dargedu rhaglenni ar gyfer lleihau heintiau clwyf llawfeddygol, heintiau anadlol a heintiau mewn perthynas â dyfeisiadau (cathetrau wrinol, cathetrau fasgwlaidd canolog a chanwlâu fasgwlaidd ymylol). Bydd hefyd yn help i fwrw iddi'n barhaus i leihau'r achosion o glefyd *C. difficile*, yr achosion o facteremias sy'n adweithio'n negyddol i brofion Gram (fel rhan o'r disgwyliadau am leihad sydd i'w cyhoeddi) ac i wella rhoi presgripsiynau am wrthficrobau. Yn ogystal â heintiau a gafwyd yn yr ysbyty, bydd cyfle yn yr arolwg hwn i ganfod nifer yr achosion o heintiau a gafwyd yn y gymuned, yn benodol, heintiau y llwybr wrinol, y gwaed, gastroberfeddol (gan gynnwys *C. difficile*) a niwmonia.

7. Mae Llywodraeth Cymru wedi gallu cefnogi darparu nifer bach o ddyfeisiau symudol i sefydliadau i staff rheoli heintiau i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer y rhaglen, ac fel rhan ohoni, er mwyn rhoi ICNet ar waith ledled Cymru. Mae'r cyllid wedi ei roi o'r Gronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg, i'r sefydliadau hynny sydd wedi gwneud cais, fel codiad i'w dyraniad referniw.

8. Mae'n bwysig iawn bod gennym ddealltwriaeth lawn o heintiau a'r defnydd o wrthficrobau a dyfeisiau meddygol ledled Cymru. Felly, rydym yn disgwyl i bob ysbyty gymryd rhan yn PPS 2017 ac mae'ch cymorth i sicrhau hyn yn cael ei werthfawrogi. Gan fod data yn mynd i gael eu casglu drwy ddefnyddio'r system rheoli achosion Atal a Rheoli Heintiau newydd (ICNet) sy'n cael ei rhoi ar waith ledled Cymru ar hyn o bryd, mae'n hanfodol bod adnoddau ac atebion TG yn eu lle a'u bod ar gael yn rhwydd er mwyn hwyluso'r broses o gasglu data. Hefyd, dylid ystyried a yw staff Atal a Rheoli Heintiau a staff fferyllol ar y ward ar gael cyn gwneud yr arolwg.